



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Yn y rhifyn hwn

- Y LLEW FRENIN
- BEICATHON
- FFAIR HAF
- LLYTHYR I RIENI BLWYDDYN 6
- CYNLLUN CHWARAE BWRLWM
- THRIVE
- CYMUNEDOL
- DYDDIADAU PWYSIG

In This Issue

- THE LION KING
- BIKEATHON
- SUMMER FAYRE
- LETTER TO YEAR 6 PARENTS
- BWRLWM PLAYScheme
- THRIVE
- COMMUNITY
- IMPORTANT DATES

DIWRNODAU HMS

2025-26
20.7.26

2026-27
1.9.26
2.9.26
25.9.26
16.10.26
22.2.27
30.4.27

DIWRNODAU HMS

2025-26
20.7.26

2026-27
1.9.26
2.9.26
25.9.26
16.10.26
22.2.27
30.4.27



Gyda 'n Gilydd Fe Lwyddwn | Together We Will Succeed



Ysgol Glan Morfa

Y LLEW FRENIN THE LION KING

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i berfformiad yr Adran Uwchradd o'r Llew Frenin yn Ysgol Bro Edern. Roedd eich presenoldeb a'ch cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth mawr, ac roedd y disgyblion a berfformiodd yn rhagorol – hyd yn oed ar noson mor boeth. Roeddent yn wych, ac roeddwn yn hynod falch ohonynt i gyd.

Roedd yn siomedig gweld rhai disgyblion a oedd i fod yn rhan o'r côr heb fod yn bresennol. Mae llwyddiant sioe o'r fath yn dibynnu ar bawb yn chwarae eu rhan, ac roedd eu habsenoldeb yn rhoi pwysau ychwanegol ar y disgyblion a oedd wedi ymrwymo ac wedi mynychu'n gyson. O hyn ymlaen, byddwn yn blaenoriaethu'r disgyblion sy'n mynychu perfformiadau'n rheolaidd wrth ddyrannu prif rannau yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys rolau Blwyddyn 6. Mae hyn er mwyn sicrhau tegwch ac i gydnabod ymroddiad.

Er bod rhai yn absennol, roedd y disgyblion a oedd yno yn gredyd i'r ysgol. Roedd eu hymroddiad, eu hymdrech a'u perfformiad yn dangos eu brwdfrydedd ac roedd yn bleser eu gweld yn disgleirio ar y llwyfan.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff am eu gwaith caled dros fisoedd lawer. Mae paratoi sioe fel hon yn cynnwys trefnu cefnlenni, gwisgoedd, sgriptiau ac amryw o elfennau ymarferol eraill – ac mae eu hymroddiad yn allweddol i sicrhau llwyddiant y perfformiad.

Roedd y sioe yn llwyddiant arbennig, ac roedd y perfformiadau'n adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad pob un o'r disgyblion a'r staff. Diolch o galon unwaith eto i'r holl rieni a oedd yno am eich cefnogaeth – mae'n golygu llawer i'r disgyblion ac i'r ysgol.

Thank you very much to everyone who came to the Upper School performance of The Lion King at Ysgol Bro Edern. Your presence and support made a big difference, and the pupils who performed were excellent – even on such a hot evening. They were fantastic, and I was extremely proud of every one of them.

It was disappointing to see some pupils who were meant to be part of the chorus not present. The success of a show like this depends on everyone playing their part, and their absence placed extra pressure on the pupils who had committed and attended consistently. From now on, we will prioritise pupils who attend performances regularly when allocating main roles in future years, including Year 6 roles. This is to ensure fairness and to recognise commitment.

Although some were absent, the pupils who were there were a credit to the school. Their dedication, effort, and performance showed their enthusiasm, and it was a pleasure to see them performing on stage.

I would also like to thank the staff for their hard work over many months. Preparing a show like this involves organising backdrops, costumes, scripts and many other practical elements – and their commitment is key to the success of the performance.

The show was a tremendous success, and the performances reflected the hard work and dedication of all the pupils and staff. Thank you once again to all the parents who were there for your support – it means a great deal to the pupils and to the school. generosity, and continued support of the school.



Y LLEW FRENIN THE LION KING





Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



JustGiving™

Diolch!

Diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich cyfraniadau hynod hael i'r ysgol yn ystod y digwyddiad arbennig hwn. Diolch i'ch cefnogaeth, rydym wedi llwyddo i gasglu bron i £3,000 tuag at ddatblygu a gwella ein hardaloedd allanol.

O ganlyniad i'r llwyddiant hwn, bydd y ffrâm ddringo newydd yn cael ei gosod cyn diwedd y tymor, ac rydym yn hynod gyffrous i'w gweld yn cael ei mwynhau gan y plant.

Mae'n dal yn bosibl cyfrannu rhwng nawr a diwedd y tymor. Gallwch wneud cyfraniad drwy ein tudalen

JustGiving: <https://www.justgiving.com/campaign/beicathon-bikeathon-2026>
Neu, os yw'n well gennych, gallwch gyflwyno arian parod i swyddfa'r ysgol.

Diolch o galon i chi gyd, ac i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, am eich caredigrwydd, eich haelioni a'ch cefnogaeth barhaus i'r ysgol.

Thank you!

A huge thank you to everyone for your incredibly generous contributions to the school during this special event. Thanks to your support, we have successfully raised almost £3,000 towards the development and improvement of our outdoor areas.

As a result of this fantastic achievement, the new climbing frame will be installed before the end of term, and we are extremely excited to see it enjoyed by the children.

There is still time to make a contribution between now and the end of term. Donations can be made through our JustGiving page:
<https://www.justgiving.com/campaign/beicathon-bikeathon-2026>

Alternatively, cash donations can be handed in at the school office.

Our sincere thanks to you all, and to the Parents and Teachers Association (PTA), for your kindness, generosity, and continued support of the school.



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON

Ysgol Glan Morfa

PTA

Cefnogi ein plant gyda'n gilydd • Supporting our children together

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi ein Ffair Haf wythnos diwethaf. Roedd yn hyfryd gweld cymaint ohonoch yn bresennol ac yn cefnogi'r ysgol. Bu'r digwyddiad yn llwyddiant arbennig, ac roedd yn braf gweld y gymuned ysgol yn dod at ei gilydd i fwynhau'r noson.

Diolch yn arbennig i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu holl waith caled, eu cefnogaeth barhaus a'u hymroddiad wrth drefnu'r ffair. Heb eu hymdrechion, ni fyddai'r digwyddiad wedi bod mor llwyddiannus.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i gasglu £1,000 tuag at gronfeydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, a fydd yn helpu i gefnogi profiadau a chyfleoedd gwerthfawr i'n disgyblion.

Diolch eto i bawb am eich cefnogaeth, eich haelioni a'ch ymrwymiad i'n hysgol.

Thank you to everyone who supported our Summer Fair last week. It was wonderful to see so many of you there and supporting the school. The event was a great success, and it was lovely to see our school community come together and enjoy the evening.

A special thank you goes to the Parents and Teachers Association (PTA) for their hard work, continued support, and dedication in organising the fair. Without their efforts, the event would not have been such a success.

We are delighted to announce that we raised £1,000 towards PTA funds, which will help to support valuable opportunities and experiences for our pupils.

Thank you once again for your support, generosity, and commitment to our school.



Ysgol Glan Morfa

RHIENI BL 6 YEAR 6 PARENTS



029 2048 9445
www.broedern.cymru
post@broedern.cymru

Heol Llanedeyrn Road
Penylan, Caerdydd / Cardiff CF23 9DT

Pennaeth Gweithredol / Executive Head: Matthew H T Evans
Pennaeth Ysgol / Head of School: Denis E Pugh



8 Gorffennaf 2026

Annwyl Rieni / Warcheidwad,

Hoffem eich gwahodd i gyfarfod wyneb yn wyneb a gynhelir yn Neuadd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern ar nos Fawrth, 14 Gorffennaf 2026.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

- Cyfarfod Cyfrwng Cymraeg: 5.00pm – 6.00pm
- Cyfarfod Cyfrwng Saesneg: 6.00pm – 7.00pm

Bydd y cyfarfod yn gyfle i ni roi diweddariad ar ein taith gydag Estyn dros y flwyddyn ddiwethaf, rhannu'r cynnydd a wnaed, ac amlinellu'r camau nesaf ar gyfer yr ysgol.

Bydd hefyd yn gyfle i chi ofyn cwestiynau agored i aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu.

Dear Parents / Guardians,

We would like to invite you to a face-to-face meeting to be held in the Hall at Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern on Tuesday, 14 July 2026.

The meetings will take place as follows:

- Welsh-medium Meeting: 5.00pm – 6.00pm
- English-medium Meeting: 6.00pm – 7.00pm

This meeting will provide an opportunity for us to update you on our Estyn journey over the past year, share the progress we have made, and outline the next steps for the school.

It will also provide an opportunity for parents and carers to ask open questions to members of the senior leadership team.

We look forward to welcoming you.

Yn gywir / Yours faithfully

D. E. Pugh

Mr Denis E Pugh

Pennaeth Ysgol / Head of School



Ysgol Glan Morfa

CYNLLUN CHWARAE PLAYSCHEME



cynllun chwarae agored gan Menter Caerdydd

Bwrlwm Haf!

Menter Caerdydd's open access play scheme

Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6/ Reception - Year 6

Cofrestru ar y dydd/ Register on the day

Cyfanswm 50 i bob lleoliad/ Maximum Capacity 50



Gweithgareddau dyddiol/ Daily activities

- CELF A CHREFFT/ ART AND CRAFTS
- LEGO
- CHWARAEON/ SPORTS
- GEMAU/ GAMES
- ADEILADU/BUILDING
- GWEITHGAREDDAU STEM ACTIVITIES
- A MWY/ and more!



www.mentercaerdydd.cymru



Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565



cynllun chwarae agored gan Menter Caerdydd

Bwrlwm Haf!

Menter Caerdydd's open access play scheme

Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6/ Reception - Year 6

Cofrestru ar y dydd/ Register on the day

Cyfanswm 50 i bob lleoliad/ Maximum Capacity 50

Wythnos 1 Mawrth - Iau 21-23.07.2026 Tuesday - Thursday

10.00am-11.55am

1.00pm-2.55pm

Ysgol Glan Morfa

Ysgol Hamadryad

Ysgol Coed y Gof

Ysgol Nant Caerau

Ysgol Y Wern

Ysgol Y Berllan Deg

Wythnos 2 Llun - Iau 27-30.07.2026 Monday - Thursday

10.00am-11.55am

1.00pm-2.55pm

Ysgol Glan Morfa

Ysgol Hamadryad

Ysgol Coed y Gof

Ysgol Nant Caerau

Ysgol Y Berllan Deg

AM DDIM/ FREE



Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



Rydym yn Ysgol Thrive

Yn Ysgol Glan Morfa, rydym yn falch o fod yn Ysgol Thrive.

Mae Thrive yn ddull ysgol gyfan sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn. Mae'n ein helpu i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi, yn cael ei ddeall ac yn barod i ddysgu.

Mae bod yn Ysgol Thrive yn golygu ein bod yn:

- Meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol gyda phob disgybl.
- Helpu plant i ddeall a rheoli eu hemosiynau.
- Cefnogi disgyblion i ddatblygu hyder, gwytnwch a hunan-barch.
- Cydnabod bod ymddygiad yn fath o gyfathrebu, a cheisio deall y rhesymau y tu ôl iddo.
- Darparu cymorth targedig i blant sydd angen cefnogaeth ychwanegol ar gyfer eu lles emosiynol.

Drwy ein dull Thrive, ein nod yw creu amgylchedd meithringar lle gall pob plentyn ffynnu yn academiaidd ac yn emosiynol. Credwn fod plant yn dysgu orau pan fyddant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn perthyn. Os hoffech wybod mwy am Thrive a sut mae'n cefnogi eich plentyn, mae croeso i chi siarad ag aelod o staff.

Gyda'n gilydd, rydym yn helpu pob plentyn i ffynnu.

At Ysgol Glan Morfa, we are proud to be a Thrive School.

Thrive is a whole-school approach that supports the social and emotional development of all children. It helps us ensure that every pupil feels safe, valued, understood and ready to learn.

Being a Thrive School means that we:

- Build positive and supportive relationships with all pupils.
- Help children to understand and manage their emotions.
- Support pupils in developing confidence, resilience and self-esteem.
- Recognise that behaviour is a form of communication and seek to understand the reasons behind it.
- Provide targeted support for children who may need additional help with their emotional wellbeing.

Through our Thrive approach, we aim to create a nurturing environment where every child can flourish both academically and emotionally. We believe that children learn best when they feel secure, happy and connected to those around them.

If you would like to find out more about Thrive and how it supports your child, please speak to a member of staff.

Together, we are helping every child to thrive.





Ysgol Glan Morfa

CYMUNED COMMUNITY

Academi Berfformio i blant bach ardal Caerdydd



Bob dydd Mawrth - Ysgol Glan Ceubal

4:30pm - 5:45pm: **Bl.1 & 2**



Cysylltwch i gofrestru'ch diddordeb!

[Dolen Gofrestru / Registration Link](#)

 abcbach.caerdydd@gmail.com

 [@academiberfformio.abc](https://www.instagram.com/academiberfformio.abc)



Academi Berfformio i blant a phobl ifanc Caerdydd



Bob dydd Llun - Ysgol Glantaf

4:30pm - 6:30pm: **Bl.3, 4 + 5**

5:30pm - 7:30pm: **Bl.6, 7 + 8**

6:30pm - 8:30pm: **Bl.9 - 13**



Cysylltwch i gofrestru'ch diddordeb!

 abccaerdydd@gmail.com

 [@academiberfformio.abc](https://www.instagram.com/academiberfformio.abc)





Ysgol Glan Morfa

CYMUNED COMMUNITY

Rhaid ymleddi gyda'r Urdd i ffordd
Must be an Urdd member to attend
➔ **Yn cynnwys** <
Anllwys £1 ar gael i rhwyb y'n dilyn cattegath atanol
£1 membership for those receiving income support

Chwaraeon

NOFIO DWYS YR URDD URDD INTENSIVE SWIMMING

Nofio dwys cyfrwng Cymraeg ar draws De Cymru ar gyfer bob oedran a gallu
Welsh language intensive swimming across South Wales for children of all ages and abilities

Cynnwys potel ddŵr a bag am ddim | Free water bottle and bag included

C.H Gorllewin Western L.C	10/08 - 14/08/26	Oed Age 3+
C.H Bedwas Bedwas L.C	17/08 - 21/08/26	Oed Age 3+
C.H Barri Barry L.C	24/08 - 28/08/26	Oed Age 4+

Mae taliadau ar gyfer nofio dwys yn cael ei talu fesul wythnos a gallwch ddarganfod gwybodaeth bellach trwy ymweld â gwefan yr Urdd.

Payment for intensive swimming are paid by the week, you can find further information regarding cost of lessons by heading over to the Urdd website.



Mae croeso i nofwyr newydd ac mae rhestrau aros ar gael os mae gwersi yn llawn
New swimmers are welcome to join and waiting lists are available if lessons are full

Llefydd cyfyngedig | Limited spaces

Lleoliad Location	Wave Ton	Pris Price
C.H Gorllewin Western L.C CF5 5HJ	Splash Splash 08:00 - 08:30 Ton Wave 3 08:00 - 08:30 Ton Wave 1 + 2 08:30 - 09:00	£35 am yr wythnos
C.H Bedwas Bedwas L.C CF83 8BJ	Splash Splash 10:00 - 10:30 Ton Wave 4/5 10:00 - 10:30 Ton Wave 1 & 2/3 10:30 - 11:00	£32.50 am yr wythnos
C.H Barri Barry L.C CF63 4JJ	Ton Wave 1 + 4/5 10:00 - 10:30 Ton Wave 2 & 3 + 6/7/8 10:30 - 11:00	£32.50 am yr wythnos

u/SportsRegistration
ro UrddCaerdyddFro





SIARTER IAITH



Siarter Iaith / Welsh Language Charter

Patrwm iaith yr Wythnos / Language Pattern

Fy hoff atgof i eleni yw... (My favourite memory this year is...)

Her / Challenge

Oherwydd... (Because)

Testun Trafod / Discussion Topic

Mae Gwyddoniaeth yn bwysicach na Chelf
(Science is more important than Art)

Cân yr wythnos / Song of the week

Cordia - Gweld yn Glir

https://www.youtube.com/watch?v=Kktg_P6dcB0

Idiom yr Wythnos / Idiom of the Week

Gwell hwyr na hwyrach
Gorau po gyntaf (The sooner the better)





CALENDR

Gorffennaf / July

Beth?	What?	Dyddiad / Date	Amser / Time
Gwersi Nofio BI 3	Year 3 Swimming Lessons	13-17.7.26	09:30
Taith "Hwyl" Blwyddyn 6	Year 6 "Fun" Visit	13.7.26	Trwy'r dydd / All day
Rygbi ar y Traeth - Ynys y Bari	Rugby on the Beach - Barry Island	14.7.26	Trwy'r dydd / All day
Gweithdy Dawns Dosbarth Derbyn	Reception Class Dance Workshop	14.7.26	Bore / Morning
Ymweliad Blynnyddoedd 4 a 5 i Sain Ffagan	Years 4 and 5 visit to St Fagans	16.7.26	Trwy'r dydd / All day
Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6	Year 6 Leaving Assembly	16.7.26	1:30yp/pm
Diwrnod Olaf y Tymor (gemau bwrdd)	Last Day of Term (board games)	17.7.26	Trwy'r dydd / All day

Gwyliau'r Haf / Summer Holidays

Cynllun Chwarae Bwrlwm	Bwrlwm Playscheme	Wythnos 1	Mawrth, Mercher a Iau
Cynllun Chwarae Bwrlwm	Bwrlwm Playscheme	Wythnos 2	Llun, Mawrth, Mercher a Iau Monday, Tuesday, Wednesday and Thursday